



Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni Digonolrwydd Chwarae: Archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant yng Nghymru chwarae

Adroddiad cryno

'Mae'n golygu ymgorffori chwarae ar bob cyfle. Fe allwch chi fod â dau gwrbyn uchel, os ydyn nhw bum metr a hanner oddi wrth ei gilydd, mae gyda chi faes 'kerby', ond oes? Fe allwch chi blannu dwy goeden led pyst gôl oddi wrth ei gilydd ac mae gennych chi Stadiwm Wembley.'



Awduron: Wendy Russell, Mike Barclay, Ben Tawil a Charlotte Derry

Gorffennaf 2020

© Yr awduron a Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

Cynnwys

Rhestr o gardiau adroddiad	4
Cyflwyniad i'r ymchwil	5
Nodau'r ymchwil	5
Tri llinyn yr ymchwil	5
Grwpiau ffocws	5
Cardiau adroddiad	6
Dull ymchwil	6
Negeseuon allweddol o'r ymchwil	6
Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth	7
Yr amgylchedd adeiledig a naturiol	8
Gwasanaethau plant a chymunedol	8
Argymhellion	10
Cyfeiriadau	11
Diolchiadau	12
Cardiau adroddiad	13

Rhestr o gardiau adroddiad

- 1 Datblygu polisi rheoli risg yn Wrecsam
- 2 Cynllun gweithredu chwarae gwasanaeth-penodol (Gwasanaethau Cymdeithasol)
- 3 Playing Out (cynlluniau chwarae gwyliau haf Conwy)
- 4 Gweithio partneriaeth ar brosiect Strydoedd Chwarae yng Nghaerdydd
- 5 Sefydlu grwpiau strategol gyda chyfrifoldeb am ddigonolrwydd chwarae
- 6 Cwmni Buddiannau Cymunedol (CBC) Playing Out ym Mryste
- 7 Diwrnod Chwarae
- 8 Fields in Trust – Gweithredoedd Cyflwyno
- 9 Datblygu prosiect ymchwil gyda phlant yn Sir Fynwy
- 10 Ymchwil gydag ysgolion yng Nghaerdydd
- 11 Cynadleddau Bywyd yng ngogledd Cymru
- 12 Dylunio tai yn Vauban, Freiburg, Yr Almaen
- 13 Chwarae mewn datblygiadau tai
- 14 Strydoedd Chwarae Hackney yn Llundain
- 15 Antwerp Speelweefselplan ('gwe-mannau-chwarae')
- 16 Ailfeddwl darpariaeth chwarae ar gyfer plant anabl yng Nghaerdydd
- 17 Polisi seilwaith gwyrdd a chynllunio yn Sir Fynwy
- 18 Rhentu coetir ar brydles yn Wrecsam
- 19 Model trosglwyddo gwaith chwarae newydd yng Nghaerdydd
- 20 Gwaith chwarae fel gwaith cymunedol ym Mhlas Madog yn Wrecsam
- 21 Play KX yn Llundain
- 22 Gwobrau Cyfoethogi Chwarae yng Nghonwy
- 23 Prosiect Buarthau Ysgolion Oasis ym Mharis
- 24 Datblygu clwb ieuenctid cynhwysol ym Merthyr Tydfil
- 25 Prosiect Amgueddfa Mwy Chwaraeus yn Amgueddfa Manceinion
- 26 Arddangosfa Gwaith-Chwarae, Tŷ Pawb yn Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb byr o adroddiad manylach sydd ar gael oddi wrth Chwarae Cymru.

Rydym yn argymhell darllen yr adroddiad llawn i ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r dull cysyniadol, y materion llosg a chanfyddiadau'r ymchwil hwn, yn ogystal â mwy o fanylion am argymhellion a'u gweithredu.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar gais oddi wrth gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

Cyflwyniad i'r ymchwil

Mae'r astudiaeth ymchwil hon yn ehangu ar dair astudiaeth flaenorol¹ (y mae crynodebau ohonynt ar gael ar wefan Chwarae Cymru:

www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd)

oedd yn ystyried bod y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol yn fater o dalu sylw i'r **amodau sy'n cefnogi gallu plant i gael hyd i amser a lle i chwarae**. Tynnodd yr astudiaeth gyfredol yr egwyddor hon yn ôl gam, gan ganolbwyntio ar yr amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau gweithredu er mwyn cefnogi cyfleoedd plant i chwarae. Caiff yr amodau hyn eu heffeithio gan ystod eang o ffactorau ac amgylchiadau sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl gyflawni Digonolrwydd Chwarae (yn cynnwys pobl, personoliaethau, gwybodaeth, profiadau, perthnasau, polisïau a'u dehongliadau, ariannu, diwylliant sefydliadol, tueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, ymchwil, tirweddau ffisegol ac yn y blaen).

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cysylltiadau a'r cyfleoedd sydd o fewn y ffactorau a'r amgylchiadau hyn, ac mae'n cyflwyno enghreifftiau ac argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, Chwarae Cymru, awdurdodau lleol a'r gweithlu plant.

Nodau'r ymchwil

O ystyried y ffocws hwn, nodau'r ymchwil oedd:

- dynodi enghreifftiau o arfer posibl, neu sy'n bodoli eisoes, ar gyfer sicrhau digonolrwydd chwarae;
- canolbwyntio ar yr amodau sy'n debyg o gael yr effaith mwyaf, er gwaethaf capasiti ac adnoddau awdurdodau lleol;

- archwilio ffyrdd y gellir datblygu'r canfyddiadau'n fodelau, yn arfau i'w defnyddio neu'n hyfforddiant ymarferol, syml a chynaliadwy;
- gwneud argymhellion ar gyfer ystod o adnoddau a chatau gweithredu er mwyn helpu i greu amodau lleol all gefnogi awdurdodau i sicrhau digonolrwydd.

Tri llinyn yr ymchwil

Roedd tri llinyn i'r ymchwil:

- ymchwil wrth ddesg i ddynodi enghreifftiau rhyngwladol o gamau gweithredu a gymerwyd ar lefel polisi ac ymarfer er cefnogi chwarae plant;
- grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda thri awdurdod lleol² i archwilio enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd, yr amodau wnaeth gefnogi'r camau gweithredu hyn, materion a wynebir gan bobl sydd am wneud gwahaniaeth, a datrysiadau posibl ac argymhellion;
- gweithio gyda phanel o 'dystion arbenigol', ar draws meysydd proffesiynol, i gynghori ar ddeilliannau ac argymhellion yr ymchwil.³

Grwpiau ffocws

Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys pobl sy'n gweithio ar lefelau strategol a throsglwyddo rheng flaen ar draws tri maes proffesiynol rhyngberthynol. Y meysydd hyn sy'n ffurfio strwythur yr adroddiad:

- Polisi, partneriaethau strategol ac eiriolaeth (yn cynnwys ymchwil a chyfnewid gwybodaeth)

- Yr amgylchedd adeiledig a naturiol
- Gwasanaethau plant a chymunedol.

Cardiau adroddiad

O'r gwaith gyda'r awdurdodau astudiaeth achos a'r ymchwil wrth ddesg, lluniwyd 26 o 'gardiau adroddiad' o enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd i gefnogi chwarae plant. Dylid pwysleisio nad ydym yn cynnig y rhain fel arfer orau – ac nid ydynt chwaith wedi eu dethol o chwiliad cyflawn. Mae pob enghraifft yn anelu i arddangos y cyd-destunau, y prosesau a'r bobl unigryw oedd ynghlwm â phob un, ond efallai y gallent gynnig syniadau y gellid eu haddasu i'r bobl hynny sy'n gweithio i gefnogi chwarae plant. Cyfeirir at y cardiau adroddiad hyn yn yr adrannau perthnasol trwy gorff yr adroddiad ac maent ar gael ar ddiwedd yr adroddiad.

Dull ymchwil

Cyflwynodd a datblygodd y tair astudiaeth ymchwil cyntaf nifer o 'arfau cysyniadol' sydd hefyd wedi hysbysu'r astudiaeth hon. Cyflwynir y rhain yn gryno yma:

- **Cyd-ddoethineb:** cydnabod a gweithio gyda nifer o wahanol ffyrdd o wybod a gweithio, ar draws meysydd proffesiynol yn ogystal ag o ran gwahanol ffyrdd plant o wybod am eu bywydau a'u manau bob dydd.
- **Cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd:** prosesau wedi eu cydblethu sy'n *cyfrif* am allu plant i ganfod amser a lle i chwarae, mewn manau cyhoeddus yn gyffredinol a hefyd mewn sefydliadau plentyndod, a bod yn *ymatebol* o ran ailfeddwl arferion a phatrymau arferol fel y gall plant chwarae, yn enwedig yn eu cymdogaethau. Oherwydd y modd y caiff gofod cyhoeddus ei drefnu, caiff plant eu heithrio rhag chwarae'r tu allan yn aml – mae hyn yn golygu bod eu hawl i chwarae'n fater o *gyfiawnder gofodol*.
- **Pedwar cofrestr Amin**⁴: addasu pedwar cofrestr Ash Amin ar gyfer 'dinas dda' fel fframwaith ar gyfer dylunio a dadansoddi'r ymchwil. Y pedwar cofrestr yw: **atgyweirio a chynnal a chadw** (cadw systemau

ac isadeiledd mewn cyflwr da a sicrhau nad ydynt yn eithrio plant yn ddiangen); **cydberthynas** (gweithio partneriaeth, cysylltioldeb a gwerthfawrogi gwahaniaeth, yn enwedig gwahanol berthnasau plant gyda lle ac amser); **hawliau** (sy'n cael eu dal yn gyffredin yn hytrach na'n unigol; hawl plant i gyfranogi yn a ffurfio cymdogaethau ac i gyfranogi yn niwylliannau plentyndod); ac **ail-gyfareddu** (talw sylw i'r pethau sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw: i blant mae hyn, ar y cyfan, yn golygu chwarae).

- **Agwedd seiliedig ar asedau:** symud oddi wrth safbwynt seiliedig ar ddiffygion plant tuag at ddathlu eu sgiliau a'u gallu fel chwaraewyr yn ogystal â'u gwybodaeth leoledig gyfoethog am eu perthnasau gyda manau lleol.

Negeseuon allweddol o'r ymchwil

Mae ein canfyddiadau, yn galonogol iawn, yn cyfeirio at bum amod pennawd all gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant:

- cyfliniad **polisi** gyda'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a'i hybu'n lleol ac yn genedlaethol;
- y **bobl** gywir yn y man cywir ar yr adeg gywir gyda digon o awdurdod, capasiti, gallu a chysondeb;
- ffynhonnell benodedig, gyson o **ariannu** ar gyfer Digonolrwydd Chwarae;
- **gwybodaeth** sy'n bodoli eisoes a gwybodaeth newydd, yn cynnwys ymchwil a ffyrdd i rannu gwybodaeth;
- **bod yn agored i bosibiliadau** (diwylliannau sefydliadol sy'n caniatáu inni allu ymateb i gyfleoedd fydd yn codi).

Mae'r amodau pennawd hyn yn tanategu 13 o argymhellion a nodir ar ddiwedd yr adroddiad. Ystyrir yr argymhellion hyn yn llawer manylach yn yr adroddiad llawn.

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Ar lefel **genedlaethol**, mae angen unioni polisïau trwy gydnabyddiaeth groyw o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn Deddfau, Mesurau ac offerynnau statudol.

O ystyried cryfder y dystiolaeth am gyfraniad chwarae tuag at iechyd a lles corfforol a meddyliol,⁵ dylid cydnabod capasiti'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i gyfrannu at yr agendâu hyn, ac ymgorffori'r Ddyletswydd wrth weithredu polisïau gan bobl sy'n arwain ar yr agendâu hynny.

Mae angen hefyd i hyrwyddo'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hun ar lefel leol a chenedlaethol. Dylid cymeradwyo ymgyrch gyfredol Chwarae Cymru, *Plentyndod Chwareus*⁶, am hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i deuluoedd; yr hyn yr ydym yn ei awgrymu yma yw bod hefyd angen hyrwyddo'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hun, ymhlith gweithwyr proffesiynol a chymunedau.

Gall datblygu polisïau **lleol** penodol helpu ymarferwyr i weithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi chwarae plant, yn cynnwys polisïau rheoli risg sy'n cefnogi staff i fabwysiadu agwedd risg-budd. Ble mae polisïau o'r fath wedi eu cyflwyno, yn allweddol i'w datblygiad oedd pobl oedd yn gwerthfawrogi ac allai wneud rhywbeth am yr angen am bolisïau o'r fath.

Gweler Cardiau Adroddiad 1 a 2

Mae'r gofyniad statudol i weithio mewn **partneriaeth ar draws feysydd proffesiynol** yn elfen alluogi rymus. Canfu'r ymchwil bod enghreifftiau llwyddiannus yn cynnwys unigolion ymroddedig oedd â'r ysgogiad, y brwdfrydedd, y profiad, y wybodaeth a'r awdurdod i symbylu, ysbrydoli a chynnal gweithio partneriaeth. Mae hyn yn awgrymu bod buddsoddiad effeithiol mewn Digonolrwydd Chwarae'n golygu sicrhau bod gan Arweinyddion Digonolrwydd Chwarae yr *amser* (o ran oriau a neilltuir i rolau swyddi a hyd yr amser a roddir i waith datblygu sicrhau canlyniadau), *lle* (mae lle person o fewn y

sefydliad yn sicrhau'r cyfrifoldeb, yr awdurdod a'r gallu i wneud penderfyniadau a dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau) a *chaniatâd* (diwylliant sefydliadol o fod yn agored i arbofi) i wneud hyn, sy'n adlewyrchu prif egwyddor y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hun o ran amser, lle a chaniatâd i blant chwarae.

Gweler Cardiau Adroddiad 3, 4 a 5

Mae'r ymchwil yn amlygu pwysigrwydd gwaith **sefydliadau eiriolaeth a seilwaith** trydedd sector lleol a chenedlaethol. Ni ellir pwysleisio ddigon rôl ganolog Chwarae Cymru wrth helpu i greu a chynnal amodau i awdurdodau lleol drosglwyddo Digonolrwydd Chwarae. Caiff hyn ei gorffori ym mhrofiad, arbenigedd ac ymrwymiad eu staff a pharodrwydd Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda nhw.

Gweler Cardiau Adroddiad 6, 7 ac 8

Ym mhob un o'n tri awdurdod astudiaeth achos, bu **ymchwil** gyda'r plant yn fan cychwyn ar gyfer camau gweithredu i gefnogi chwarae plant. Roedd y gwaith yma'n cynnwys ffyrdd creadigol o gynnal gwaith ymchwil gyda phlant ar eu perthynas gyda gofodau bob dydd, oedd yn aml yn galw am weithio uniongyrchol mewn mannau perthnasol, er enghraifft, creu mapiau, tynnu ffotograffau o leoliadau o bwys, mynd am dro. Mae ymchwil o'r fath yn canolbwyntio ar feicro-fanylion cymdogaethau penodol iawn. Ceir digonedd o dystiolaeth o'r materion cyffredinol sy'n cefnogi neu'n cyfyngu chwarae plant – mae'r dulliau hyn yn helpu oedolion i dalu sylw i elfennau penodol y gofod *hwn* ar yr adeg benodol *hon* ar gyfer y plant *hyn*, gan alluogi ymatebion penodol.

Gweler Cardiau Adroddiad 9 a 10

Mae cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, cymwysterau a ffurfiau eraill ar gyfenwid gwybodaeth ar draws y lluo o feysydd proffesiynol sy'n effeithio ar Ddigonolrwydd Chwarae wedi bod yn elfennau galluogi sylweddol o weithio partneriaeth effeithiol, arweiniodd at gamau gweithredu i gefnogi chwarae plant.

Gweler Cerdyn Adroddiad 11

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Mae gallu plant i chwarae'r tu allan yn fater o gyfiawnder gofodol: mae trefniant cyfiawn o ofod cyhoeddus yn cydnabod hawl plant i chwarae'r tu allan ac yn gwneud hynny'n bosibl.

Mae **dyluniad tai** yn cael dylanwad sylweddol ar allu plant i chwarae'r tu allan. Mae perthynas glir rhwng rhinweddau ffisegol cynllun tai (mynediad i ofod diogel, cyfagos gaiff ei rannu; rhwydweithiau cysylltiol a nodweddion strydoedd) a hyd yr amser a nifer y plant sy'n chwarae'r tu allan.⁷ Yr un cyn bwysiced yw ymchwil gyda phlant yn ystod y cyfnod dylunio ac wedi i bobl symud i mewn.

Gweler Cardiau Adroddiad 12 a 13

Mae'r **stryd** wastad wedi bod yn ofod y mae ymladd drosto ar gyfer chwarae plant, yn enwedig i blant dosbarth gweithiol. Heddiw, mae cyfuniad cymhleth o ffactorau cyfoes yn golygu nad yw chwarae'r tu allan mor gyffredin ag yr oedd ers talwm, er bod plant yn dal i chwarae'r tu allan ble fo amodau'n cefnogi hynny. Mae dadl gref i awgrymu bod traffig, yn gerbydau sy'n symud ac sydd wedi parcio, yn cyfrannu'n sylweddol i'r dirywiad mewn amodau sy'n cefnogi chwarae'r tu allan – mae hyn yn arwain at weld pobl yn cilio o'r stryd yn gyffredinol, gan agor lle i ofnau eraill godi (er enghraifft ofn ymosodiadau a pherygl dieithriad).

Gweler Cerdyn Adroddiad 14 (a hefyd Cardiau Adroddiad 4 a 6)

Mae ymchwil ar **ryddid plant i grwydro** yn creu darlun o ddirywiad dros nifer o ddegawdau. Er hynny, os yw'r amodau'n iawn, mae dal yn well gan blant chwarae'r tu allan. Mae llawer o fentrau sy'n cefnogi rhyddid symudiad plant wedi eu cysylltu'n agos â chamau gweithredu i gefnogi teithio llesol.

Gweler Cerdyn Adroddiad 15

Er ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd gadael i blant gael rhyddid i grwydro a chwarae allan yn eu cymdogaethau, mae **meysydd chwarae a pharciau penodedig** yn rhan sylweddol o

fywydau chwarae plant. Cawsom hyd i nifer o enghreifftiau o agweddau mwy creadigol tuag at ddylunio ar gyfer chwarae plant, wedi eu cefnogi gan nifer cynyddol o adnoddau, yn cynnwys pecyn cymorth cymunedol Chwarae Cymru ar ddylunio a rheoli mannau chwarae,⁸ sydd wedi ei anelu at gefnogi grwpiau cymunedol, cymdeithasau chwarae neu gynghorau tref a chymuned.

Gweler Cardiau Adroddiad 16 ac 17

Ar gyfartaledd, mae oddeutu thraean o boblogaeth Cymru'n byw mewn **ardaloedd gwledig** (aneddiadau gyda phoblogaeth o dan 10,000), gyda'r ffigur hwnnw'n llawer uwch mewn rhai ardaloedd. Telir llai o sylw i blentyndod gwledig na phlentyndod trefol. Yn aml, bydd gan blant gwledig lai o ryddid symudiad na phlant trefol,⁹ ac er bod myth rhamantaidd am gefn gwlad efallai'n awgrymu bod ganddynt fwy o le gwyrdd ac agored i chwarae, mewn gwirionedd, gall hwn fod yn anodd cael mynediad iddo, yn bennaf oherwydd ei fod fel arfer yn dir fferm preifat.

Gweler Cerdyn Adroddiad 18

Gwasanaethau plant a chymunedol

Ni ellir pwysleisio ddigon ddylanwad **gwaith chwarae** a chyfraniad gweithwyr chwarae i ddatblygiad a gweithrediad y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn genedlaethol ac yn lleol. Wedi ei arwain gan gyfres ffurfiol o egwyddorion,¹⁰ prif fwriad gwaith chwarae yw creu mannau sy'n cefnogi chwarae pen agored plant a ysgogir yn gynhenid, ynghyd ag eiriol dros chwarae plant a drefnir yn bersonol. Mae'r gwaith eiriolaeth yma'n ffurfio sail i waith Chwarae Cymru gyda Llywodraeth Cymru i greu agenda ar gyfer chwarae yng Nghymru ac i greu amodau i awdurdodau lleol weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Mae eiriolaeth o'r fath wedi chwarae rhan sylfaenol ac arweiniol hefyd wrth weithio tuag at Ddigonolrwydd Chwarae ar lefel leol.



Mae'r cyfraniadau uniongyrchol (gyda phlant) ac anuniongyrchol (gydag oedolion eraill, yn eiriol ac yn cynllunio ar gyfer chwarae) a wnaed gan weithwyr chwarae ar draws y mwyafrif o'r enghreifftiau a geir yn yr adroddiad hwn, yn sylweddol. Mae'r bobl hynny sydd ag o leiaf gefndir gwaith chwarae os nad swyddogaeth gwaith chwarae, sawl gwaith wedi bod yn anogwyr neu'n alluogwyr ar gyfer camau gweithredu, gan dynnu pobl ynghyd, datblygu cyd-ddoethineb, hwyluso a datblygu ymatebion i ymchwil gyda phlant, hyrwyddo gwerth Digonolrwydd Chwarae i adrannau a sefydliadau perthnasol ar lefel genedlaethol a lleol.

Gweler Cardiau Adroddiad 19, 20 ac 21

Mae gan iechyd a lles mewn **ysgolion** le blaenllaw ym mholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, fel y gwelir yn adolygiad thematig 2019 Estyn o iechyd a lles disgyblion¹¹ a Chwricwlwm newydd Cymru 2022, Llywodraeth Cymru.¹² O'r ymchwil i'r cysylltiadau rhwng chwarae ac iechyd a lles,¹³ mae synergedd amlwg gyda'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae y gellid, ac a dylid, eu hegluro'n fwy cryw.

Mae cyd-ddatganiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwarae Cymru¹⁴ yn dynodi negeseuon allweddol ar gyfer ysgolion:

- Dylid annog ysgolion i agor eu tiroedd ar gyfer chwarae rhydd y tu allan i oriau ysgol;
- Mae amser ar gyfer chwarae rhydd yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol yn hanfodol i les plant;
- Dylid dylunio ysgolion newydd i gefnogi chwarae awyr agored plant.

Gweler Cardiau Adroddiad 22 a 23

Mae potensial mawr i **weithwyr ieuencid** gyfrannu at sicrhau cyfleoedd digonol i blant hŷn 'chwarae', hyd yn oed os na fydd y bobl ifanc eu hunain yn ei alw'n chwarae ac er gwaetha'r ffaith mai nod cyffredinol gwaith ieuencid yw addysg anffurfiol. Un maes penodol, yw'r bwriad yn Strategaeth Gwaith Ieuencid i Gymru i fapio darpariaeth gwaith ieuencid, yn cynnwys darpariaeth drosiannol (dan 11 oed), sy'n creu cysylltiadau amlwg gydag Asesiadau Digonolrwydd Chwarae.

Gweler Cerdyn Adroddiad 24

I gloi, mae diddordeb cynyddol yn y **sector ddiwylliannol** i ddeall a chefnogi chwarae plant mewn sefydliadau megis amgueddfeydd ac orielau ac ar safleoedd treftadaeth. Gellid archwilio'r syniad o ddatblygu partneriaethau ychwanegol er mwyn ymestyn ac eiriol dros Ddigonolrwydd Chwarae mewn modd positif.

Gweler Cardiau Adroddiad 25 a 26

Argymhellion

Mae'r adroddiad yn gwneud 13 o argymhellion ar gyfer camau gweithredu all gefnogi awdurdodau lleol i drosglwyddo ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Bydd nifer o'r rhain yn bwydo i mewn i waith cyfredol yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Nodir y prif argymhellion yma – mae'r adroddiad llawn yn ehangu ar y rhain gan gydnabod gwaith sy'n cael ei wneud eisoes, cyflwyno'r sail resymegol a chyd-destun a gwneud awgrymiadau ar gyfer eu gweithredu.

Argymhelliad 1: Ar lefel genedlaethol, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni ac adrodd ar broses fapio i arddangos y perthnasau cyfredol a phosibl rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a deddfwriaethau, polisïau a mentrau allweddol eraill. Dylai'r adroddiad gyflwyno argymhellion ar gyfer cryfhau cysylltiadau, yn enwedig ble byddai cyfeiriadau croyw at y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn helpu i greu amodau er mwyn i awdurdodau lleol drosglwyddo ar y Ddyletswydd.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell y dylai'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ystyried protocol ar gyfer Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant mewn ffyrdd all sicrhau bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cael ei hystyried hefyd.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol weithio tuag at gyflinio mwy eglur a lefel uchel o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda pholisïau, protocolau a mentrau eraill.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth a ariennir i hyrwyddo'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mewn partneriaeth â Chwarae Cymru.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru chwilio am ffyrdd i ddarparu ffrwd ariannu fwy cyson i gefnogi'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell, ble fo adnoddau ar gael ar lefel awdurdod lleol, y dylid yn y lle cyntaf ystyried eu defnyddio i ariannu swydd Digonolrwydd Chwarae barhaol ar lefel uwch, y bydd eu rôl i weithio'n strategol ar Ddigonolrwydd Chwarae.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Chwarae Cymru i weithio gyda nhw i barhau â'r gwaith cyfredol i adolygu, adfywio ac ail-lansio'r Pecyn Cymorth Digonolrwydd Chwarae llawn yng ngoleuni'r ymchwil hwn yn ogystal â *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru*, a hefyd unrhyw newidiadau allai godi o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol ganfod ffyrdd i wreiddio gweithio partneriaeth ar Ddigonolrwydd Chwarae yn eu systemau.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, Chwarae Cymru ac awdurdodau lleol weithio i adeiladu ar ymdrechion cyfredol i ddwyn gweithwyr proffesiynol trawsddisgyblaethol ynghyd, i hyrwyddo'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a hefyd i rannu ymchwil, profiadau a syniadau, er enghraifft trwy hyfforddiant, rhaglenni datblygiad proffesiynol neu gynadleddau aml-asiantaeth.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwarae Cymru i archwilio ffyrdd i gefnogi ymchwil pellach i hysbysu trosglwyddo ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Argymhelliad 11: Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol ystyried buddsoddi amser ac adnoddau mewn ymchwil moesegol parhaus gyda phlant gan ddefnyddio arsylwadau, mapio a dulliau creadigol eraill ar lefel micro-gymdogaeth, gan alluogi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o hoff ddewisiadau ac arferion chwarae plant, a rhannu'r canfyddiadau hynny gydag oedolion eraill i gyfoethogi cyd-ddoethineb.

Argymhelliad 12: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a Chwarae Cymru adolygu'r

adnoddau gwybodaeth cyfredol a gyhoeddir gan Chwarae Cymru, yn cynnwys y gyfres *Ffocws ar chwarae* a'u casgliad cyffredinol, gan ddynodi meysydd ar gyfer adnoddau newydd neu ddiwygiedig, a sicrhau cysylltiad uniongyrchol rhwng y rhain â'r Pecyn Cymorth Digonolrwydd Chwarae newydd.

Cyfeiriadau

¹ Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewpard, Het Silc a Phiben Sugrwr Llŵch: Dadansoddiad o ddyletswydd Asesu Digonolrwydd Chwarae, Cymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

Lester, S. a Russell, W. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru: Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

² Sef: Caerdydd, Conwy a Sir Fynwy.

³ Sef Tim Gill (ymchwilydd annibynnol ac eiriolwr dros blant, Rethinking Childhood), Dinah Bornat (pensaer, Hyrwyddwr Dylunio Maer Llundain, ZCD Architects) a Keith Towler (cyn-Gomisiynydd Plant Cymru 2008-2015, Cadeirydd Bwrdd Interim Gwaith Ieuencid Cymru).

⁴ Amin, A. (2006) The Good City, *Urban Studies*, 43(5/6), td.1010.

⁵ Er enghraifft, Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau.

Whitebread, D., Basilio, M., Kuvalja, M a Verma, M. (2012) *The Importance of Play*, Toy Industries Europe.

Argymhelliad 13: Rydym yn argymhell mabwysiadu agwedd seiliedig ar asedau tuag at Ddigonolrwydd Chwarae ar lefel leol a chenedlaethol mewn ffyrdd fydd yn cefnogi ail-gyfareddiad gyda chwarae plant.

⁶ www.plentyndodchwareus.cymru

⁷ ZCD Architects a NHBC Foundation (2017) *Making spaces for play on new suburban and town developments*. Llundain: ZCD Architects.

⁸ Chwarae Cymru (2016) *Datblygu a rheoli mannau chwarae*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

⁹ Er enghraifft, Carver, A., Timperio, A.F. a Crawford, D.A. (2012) Young and Free? A study of independent mobility among urban and rural dwelling Australian children, *Journal of Science and Medicine in Sport*, 15(6):505-510; Kyttä, M., Hirvonena, J., Rudner, J., Pirjolaa, I a Laatikainen, T. (2015) The Last Free Range Children? Children's independent mobility in Finland in the 1990s and 2010s, *Journal of Transport Geography*, 47:1-12.

¹⁰ www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae

¹¹ Estyn (2019) *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*. Caerdydd: Estyn.

¹² Llywodraeth Cymru (2019) *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gwednewidiol. Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

¹³ Er enghraifft, Lester, S a Russell, W (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau; Whitebread, D., Basilio, M., Kuvalja, M a Verma, M. (2012) *The Importance of Play*, Toy Industries Europe.

¹⁴ Cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*, Gwanwyn 2019.

Diolchiadau

Hoffem fynegi ein diolch i Chwarae Cymru am gomisiynu'r ymchwil hwn a darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth, ac i Lywodraeth Cymru am ddarparu ariannu.

Rydym wedi tynnu ar wybodaeth ac ewyllys da llawer o bobl wrth gynnal yr ymchwil a chreu'r adroddiad hwn, ac rydym yn ddiolchgar i bob un ohonoch, yn cynnwys: pobl o'r tri awdurdod astudiaeth achos; Eleanor Beer am ei darluniadau graffig gwych ddaeth â'r data'n fyw; Tim Gill, Dinah Bornat a Keith Towler am fod yn banel o 'dystion arbenigol'; y rheini fu mor hael â rhannu eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae ac a gytunodd inni eu cyfweld; y llu o ymatebwyr ar Twitter am y syniadau, yr awgrymiadau a'r cyhoeddiadau a rannwyd.

Fel o'r blaen, diolch o galon hefyd i Stuart Lester, fyddai'n tarfu ar ein ffordd arferol o feddwl am chwarae a gofod yn ei ffordd chwareus a doeth ddihafal, ac y mae ei ddylanwad ar yr astudiaeth ymchwil hon yn sylweddol. Rydym yn dy fethu, ond mae dy waith yn parhau. Gobeithio ein bod wedi gwneud cyfiawnder iddo.





Cardiau adroddiad

1 Datblygu polisi rheoli risg yn Wrecsam

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Datblygu fframwaith polisi fydd yn galluogi ymarferwyr i fabwysiadu agwedd gytbwys tuag at reoli risg yn eu gwaith gyda neu ar ran plant sy'n chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Argymhellion o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol
- Defnyddio ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i ddatblygu arweiniad ar bryderon penodol

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Swyddogion Chwarae Cymru
- Tîm Datblygu Chwarae'r awdurdod lleol
- Gweithwyr chwarae profiadol o feysydd chwarae antur
- Eiriolwyr sy'n gweithio'n genedlaethol i hybu agwedd risg-budd
- Swyddogion iechyd a diogelwch sympathetig

Adnoddau/galluogwyr

- Theori ac arfer chwarae a gwaith chwarae
- Cyhoeddi *Play for a Change... a Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*
- Cefnogaeth Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i agwedd gytbwys tuag at reoli risg

Proses

- Ysgrifennu'r polisi gwreiddiol a dylunio'r fframwaith rheoli risg
- Datblygu canllawiau asesu risg-budd dynamig i staff
- Trosglwyddo hyfforddiant rheoli risg i staff yn seiliedig ar y polisi
- Cynhyrchu asesiadau risg-budd manwl er mwyn egluro safbwynt yr awdurdod lleol ar ystod o faterion a sefyllfaoedd penodol

Heriau

- Derbyn cefnogaeth gan fwrdd gweithredol yr awdurdod lleol – a wnaed yn bosibl gan y ddyletswydd statudol

Allbwn/deilliant

- Mae'r polisi wedi galluogi Tîm Datblygu Chwarae'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag amrywiol sefyllfaoedd ble mae pobl wedi lleisio pryderon ynghylch darpariaeth ar gyfer chwarae plant
- Mae elfennau o'r polisi / fframwaith wedi eu defnyddio mewn nifer o wahanol leoliadau ble mae plant yn chwarae
- Defnyddiwyd y polisi ym Mhecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol

2 Cynllun gweithredu chwarae gwasanaeth-penodol (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Cyd-gynhyrchu cynllun gweithredu polisi chwarae gwasanaeth-penodol a chanllawiau chwarae a rheoli risg ar gyfer Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol a gofalwyr maeth

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae Sirol
- Polisi Chwarae a Rheoli Risg Wrecsam a Chonwy
- Capasiti Chwarae Cymru i gefnogi trwy eu Swyddog Datblygu'r Gweithlu

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Arweinydd Digonolrwydd Chwarae (a arianwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf a'i gyflogi gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol) yn gwneud y mwyaf o gyfarfodydd ar hap i wella cyfleoedd i chwarae
- Staff y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal yn eiriol i uwch-reolwyr am well agwedd tuag at chwarae plant
- Parodrwydd uwch-reolwyr i groesawu newid

Ffactorau siawns

- Adborth oddi wrth blant a gofalwyr maeth ar gynlluniau chwarae'n dweud na allen nhw, fel arfer, gymryd rhan yn 'y math yma o chwarae'
- Gweithiwr cymdeithasol sy'n ymwybodol o chwarae yn yr un cynllun chwarae'n adleisio pryderon tebyg
- Yn ystod trosglwyddo hyfforddiant gwaith chwarae cychwynnol i ofalwyr maeth, sylweddoli bod angen edrych ar bolisi a chanllawiau ar gyfer Y Gwasanaethau Cymdeithasol a gofalwyr maeth

Proses

- Datblygu Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae a chanllaw rheoli risg mewn partneriaeth gydag uwch-reolwyr Y Gwasanaethau Cymdeithasol a grŵp cynghori gofalwyr maeth
- Ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w gymeradwyo a'r Adran Yswiriant i brofi os yw'n addas i'r diben
- Darparu hyfforddiant i reolwyr a staff adrannol
- Trosglwyddo hyfforddiant blynyddol ar y cyd i ofalwyr maeth a staff Plant sy'n Derbyn Gofal, gan sicrhau rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a chwalu rhwystrau

Heriau

- Cefnogi'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal i wreiddio'r polisi a'r arweiniad yn eu harfer
- Mapio parhaus gyda chynlluniau adrannol eraill er mwyn osgoi negeseuon sy'n gwrthdaro
- Rhaid i'r broses ddatblygu gynnwys pob person allweddol ac, o ganlyniad, mae'n araf

Deiliant

- Gwell dealltwriaeth o chwarae gan ofalwyr maeth, Y Gwasanaethau Cymdeithasol / Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal
- Llawer llai o ansicrwydd ynghylch yr hyn y gall plant sy'n chwarae ei wneud
- Enghraifft wych o sut y gellir datblygu canllawiau a chynlluniau gweithredu polisi chwarae gwasanaeth-penodol a gwella cyfleoedd plant i chwarae

Camau nesaf

- Adolygu ac adfywio, dysgu oddi wrth brofiadau a gwella

3 Playing Out (cynlluniau chwarae gwyliau haf Conwy)

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Model partneriaeth ar gyfer cynlluniau chwarae awyr agored mynediad agored rhwng Cynghorau Tref a Chymuned, Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Gwirfoddol Sirol

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a chanfyddiadau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yr awdurdod lleol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyranid ariannu Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer cydlynnydd 'Playing Out'
- Defnyddio Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i ddatblygu cynllun grantiau

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Gwerthfawrogiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsadrannol ar Chwarae o werth chwarae
- Person arweiniol yr Adran Addysg o fewn y cyngor yn gweithio gydag ansicrwydd prosiect 'Playing Out'
- Arweinydd Digonolrwydd Chwarae (a ariannwyd gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf y Cyngor Bwrdeistref Sirol ac a gyflogwyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol) a'r cydlynnydd 'Playing Out'
- Cynghorau Tref a Chymuned (clercod yn aml)

Proses

- Cyflwyniadau'r Arweinydd Digonolrwydd Chwarae a'r cydlynnydd i Gynghorau Tref a Chymuned yn gofyn am fynegi diddordeb i greu cytundeb Playing Out
- Asesiadau'r Arweinydd Digonolrwydd Chwarae a'r cydlynnydd i lefel yr ymrwymiad a thrafod gydag arweinydd adrannol y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gychwyn y prosesau gweinyddol a recriwtio
- Cynghorau Tref a Chymuned i gadarnhau ymrwymiad ariannu / contractio
- Arweinydd adrannol y Cyngor Bwrdeistref Sirol i drefnu gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), hyfforddiant gorfodol, cyflogres, yswiriant a cherbydau

Heriau

- Llwyth gwaith negodi cytundebau'n flynyddol gyda 15-20 o Gynghorau Tref a Chymuned
- Gweithio gydag ansicrwydd: mae angen i brosesau recriwtio gychwyn cyn i gytundebau ariannu gael eu pennu'n derfynol
- Ariannu ar gyfer y cydlynnydd yn cael ei gytuno'n flynyddol, sy'n golygu bod cynllunio tymor hir yn anodd

Allbwn/deilliant

- Ymgysylltu gydag oddeutu 2000 o blant a nifer debyg o rieni / gofalwyr
- Gweithiwr cynhwysiant un-i-un yn integreiddio plant gydag anghenion ychwanegol i mewn i ddarpariaeth 'prif ffrwd'
- Mae cynnal cynlluniau chwarae gerllaw Canolfannau Teuluoedd yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu, rhannu gwybodaeth ac ymyrraeth gynnar
- Mwy o ddefnydd o'r rhaglen Llwg yn Ystod y Gwyliau
- Teuluoedd yn dilyn cynlluniau chwarae o amgylch y fwrdeistref, gan ffurfio rhwydweithiau o ffrindiau
- Rhieni'n ymlacio mwy ac yn mabwysiadu agwedd wahanol at chwarae eu plant

Camau nesaf

- Datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth tymor hirach gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar gyfer ariannu

4 Gweithio partneriaeth ar brosiect Strydoedd Chwarae yng Nghaerdydd

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Enghraifft o'r ystod o chwaraewyr a chysylltiadau oedd ynghlwm â sbarduno a datblygu prosiect strydoedd chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Menter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar at Blant UNICEF a Strategaeth Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant Caerdydd, yn enwedig y thema Strydoedd Mwy Diogel

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Rhieni lleol
- Plant (trwy ymchwil blaenorol Dinasoedd sy'n Gyfeillgar at Blant a Digonolrwydd Chwarae)
- Tîm Datblygu Chwarae, oedd wedi cynnal rhywfaint o waith strydoedd chwarae
- Chwarae Cymru
- Arweinydd Tîm Polisi Trafnidiaeth, Cyngor Caerdydd
- Cynghorydd a Deiliad Portffolio cefnogol iawn dros Bolisi Trafnidiaeth (ac Aelod Bwrdd ar gyfer Gemau Stryd)
- Swyddog Dinasoedd sy'n Gyfeillgar at Blant gyda dealltwriaeth o chwarae a chysylltiadau ar draws y cyngor

Proses

- Cysylltodd rhieni lleol gyda Playing Out (Bryste) gan eu bod am gychwyn menter chwarae stryd
- Cynhaliodd Chwarae Cymru gyfarfod gydag eiriolwyr lleol, Gweithiwr Cymorth Datblygu Chwarae'r awdurdod, a chynrychiolwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru
- Sefydlwyd cynllun peilot, a werthuswyd gan Chwarae Cymru a dau fyfyrwr o Brifysgol Caerdydd
- Llwyddodd y swyddog Dinasoedd sy'n Gyfeillgar at Blant i helpu i sefydlu a chadeirio tasglu gyda swyddogion perthnasol i ffurfio gweithdrefnau ymgeisio ar gyfer cau strydoedd
- Ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i brynu pecynnau cau strydoedd

Heriau

- Gall gwrthwynebiad lleol atal gweithredwyr rhag dal ati
- Cydbwysedd rhwng amser a chapasiti i'r Tîm Datblygu Chwarae gefnogi'r trigolion trwy'r broses ymgeisio ar y dechrau

Allbwn/deilliant

- Chwarae Stryd wedi ennill ei blwyf a phrosesau a phrotocolau wedi eu sefydlu o fewn y cyngor
- Amcanion chwarae stryd Dinasoedd sy'n Gyfeillgar at Blant yn parhau

5 Sefydlu grwpiau strategol gyda chyfrifoldeb am ddigonolrwydd chwarae

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Ble fo enghreifftiau'n bodoli, mae'r grwpiau strategol amlddisgyblaeth hyn yn datblygu'n 'grwpiau meddwl' ble gellir lleisio heriau o ran digonolrwydd chwarae a'u trafod yn strategol

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Dyletswyddau a mentrau polisi lleol eraill

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Arweinyddion Digonolrwydd Chwarae wedi eu lleoli mewn amrywiol adrannau ar draws gwahanol awdurdodau lleol
- Swyddogion mewn rolau datblygu partneriaeth a pholisi
- Arweinyddion polisi o adrannau eraill a sefydliadau partner
- Aelodau etholedig gyda chyfrifoldeb am ddigonolrwydd chwarae

Ffactorau siawns

- Grwpiau strategol yn esblygu'n 'grwpiau meddwl' yn hytrach na dim ond monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu

Proses

- Sefydlu, cynnal a hwyluso'r grŵp
- Ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o amrywiol feysydd polisi

Heriau

- Sicrhau nad yw digonolrwydd chwarae'n cael ei golli ymysg agendâu eraill
- Dynodi hoff fecanweithiau adrodd / safbwynt strategol y grŵp
- Egluro swyddogaeth y grŵp, ei wneud yn werth chweil i bobl fod yn rhan ohono
- Pwysau ar amser pawb sy'n rhan ohono
- Newidiadau personél

Allbwn/deilliant

- Gwell gweithio partneriaeth er cefnogi chwarae
- Gwell cydnabyddiaeth i gyfrifoldebau ar draws meysydd polisi
- Capasiti cynyddol i ymateb i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Cyfleoedd i drafod heriau o ran digonolrwydd chwarae

6 Cwmni Buddiannau Cymunedol (CBC) Playing Out ym Mryste

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

'Mudiad wedi ei arwain gan rieni a thrigolion sy'n adfer rhyddid plant i chwarae allan yn y strydoedd a'r manau ble maent yn byw' (www.playingout.net)

Symbylwyr a gyrwyr

- Yn y lle cyntaf, dwy fam leol oedd am i'w plant allu chwarae allan ar y stryd
- Sbardunodd y profiad o gau strydoedd ar gyfer parti stryd y syniad ar gyfer cau strydoedd i chwarae
- Cefnogaeth oddi wrth drigolion eraill ar y stryd a'r cyngor lleol
- Arweiniodd llwyddiant arbrofion cynnar at ddatblygu model y gellid ei ddyblygu

Datblygiad y model ehangach

- Cynlluniau peilot lleol
- Cefnogaeth oddi wrth Gyngor Bryste a gyflwynodd Orchmynion Stryd Chwarae Dros Dro
- Arweiniodd diddordeb oddi wrth bobl eraill at ddatblygu'r model Playing Out a sicrhau ei fod ar gael trwy wefan
- Ffurfiwyd CBC Playing Out yn 2011
- Rhwydwaith cynyddol o strydoedd chwarae ledled y DU

Strategaethau

- Datblygu model syml y gellid ei ddyblygu, rhwydweithiau, adnoddau, cyngor
- Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau prif ffrwd yn annog rhieni i gysylltu gyda'u cynghorau a'u cymdeithasau chwarae eu hunain
- Comisiynu ymchwil sy'n dangos tystiolaeth o werth o ran iechyd a lles plant, cymunedau cryfach, dinasyddiaeth weithredol a newid diwylliannol ehangach
- Lobiö

Heriau

- Gwrthwynebiad i'r syniad oddi wrth leiafrif o bobl (mae strydoedd ar gyfer ceir, efallai y caiff ceir eu difrodi, efallai y caiff plentyn ei daro gan gar)
- Mae'n bwysig herio'r rhain gyda thystiolaeth

Allbwn/deilliant

- Yng Ngorffennaf 2019, roedd gan 63 o gynghorau'r DU bolisi chwarae stryd – roedd bron i 1000 o gymunedau wedi chwarae allan, yn cynnwys 3000 o blant
- Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau swyddogol i gynghorau lleol Lloegr ar gau strydoedd i gefnogi plant i chwarae allan
- Diddordeb ac addasu'r model yn rhyngwladol

Cyfeiriad: Ferguson, A. (2019) Playing out: a grassroots street play revolution, *Cities & Health*, 3(1-2): 20-28.

7 Diwrnod Chwarae

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Diwrnod Chwarae yw diwrnod cenedlaethol y DU ar gyfer chwarae, a gynhelir yn draddodiadol ar Ddydd Mercher cyntaf mis Awst (www.playday.org.uk)

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Dechreuwyd ym 1986 yn Llundain mewn ymateb i doriadau i wasanaethau chwarae
- Yr amcanion cychwynnol oedd cynyddu proffil chwarae a rhybuddio pobl ynghylch toriadau posibl i wasanaethau

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Y sefydlwyr oedd Mick Conway, Paul Bonel a Kim Holdaway
- Heddiw, mae Diwrnod Chwarae'n cael ei gefnogi gan Chwarae Cymru, Play England, PlayBoard Northern Ireland a Play Scotland

Datblygiad

- Tyfodd Diwrnod Chwarae ar draws Llundain ac ym 1991 aeth yn genedlaethol
- Ambell flwyddyn derbyniodd Diwrnod Chwarae adnoddau i gomisiynu ymchwil ac ymgyrch ar y cyfryngau

Sut mae'n gweithio

- Gall unrhyw un gynnal digwyddiad Diwrnod Chwarae yn eu cymuned
- Ceir adnoddau ar y wefan i helpu gyda chynllunio, ymgyrchu a defnyddio'r cyfryngau
- Gofynnir i bobl sy'n cynnal digwyddiadau eu cofrestru ar y wefan er mwyn tracio eu cyrhaeddiad a hysbysu'r cyhoedd am ddigwyddiadau yn eu hardal

Allbwn/deiliant

- Gall digwyddiadau Diwrnod Chwarae helpu i hybu gwerth chwarae yn ogystal â gwasanaethau chwarae ac, yng Nghymru, y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Mae'n gyfle proffil uchel i ddod â phobl ynghyd, yn cynnwys swyddogion ac aelodau'r cyngor
- Yng Nghymru, mae wedi arwain yn aml at fentrau a chamau gweithredu eraill i gefnogi digonolrwydd chwarae

8 Fields in Trust – Gweithredoedd Cyflwyno

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Gall tîrfeddianwyr ymgeisio am Weithred Gyflwyno fydd yn gwarchod mannau agored rhag cael eu datblygu am byth

Symbylwyr a gyrwyr

- Nod Fields in Trust yw gwarchod mannau gwyrdd ac agored yn erbyn bygythiad pwysau ariannol a datblygu

Sut mae'n gweithio

- Gellir gwarchod gofod hamdden awyr agored sydd â mynediad i'r cyhoedd trwy gytundeb cyfreithiol rhwymol a elwir yn Weithred Gyflwyno
- Bydd rhaid i'r cais am Weithred Gyflwyno gael ei wneud gan y tîrfeddiannwr
- Mae canllawiau a'r ffurflen gais ar gael ar y wefan www.fieldsintrust.org/protect

Sut y gall gefnogi digonolrwydd chwarae

- Byddai angen i gymunedau lleol weithio gyda thîrfeddianwyr lleol
- Efallai y gall Meysydd Chwarae Cymru gynnig cyngor a chefnogaeth

9 Datblygu prosiect ymchwil gyda phlant yn Sir Fynwy

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Prosiect peilot yn cynnwys plant fel cyfranogwyr a dylunwyr ymchwil a ddatblygwyd mewn ymateb i bryderon trigolion mewn oed am chwarae

Symbylwyr

- Taith gerdded gymunedol gyda chynghorydd lleol a swyddog o'r awdurdod lleol, ble cododd llinyn chwarae cyffredin trwy sgysiau gyda thrigolion lleol
- Yr angen i gynnwys plant a ddynodwyd trwy gyfarfod partneriaeth a sefydlwyd mewn ymateb i bryderon trigolion
- Ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i gefnogi'r prosiect ymchwil

Gyrwyr a galluogwyr

- Swyddog yr awdurdod lleol o'r Tîm Cymunedau a Datblygu Partneriaethau sy'n frwd dros hawliau plant a gwrando ar blant
- Swyddog o'r awdurdod lleol o'r Adran Cefn Gwlad gyda gwybodaeth eang am ddarpariaeth chwarae yn yr ardal leol
- Gweithio clwstwr cryf rhwng ysgolion gydag un pennaeth fel pwynt cyswllt unigol

Ffactorau siawns

- Cafodd parodrwydd penaethiaid i fod yn rhan o'r cynllun ei gynyddu gan fod rhiant yn yr ysgol wedi gofyn hefyd am gymorth i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae

Proses

- Dod â phartneriaid ynghyd i ganolbwyntio ar gymdogaeth benodol
- Gweithio gyda chlwstwr o ysgolion yn y gymuned
- Hwyluso sesiynau gyda phlant i ddylunio ymchwil
- Cynhyrchu holiaduron, casglu data a dadansoddi ymatebion
- Bwydo'r canlyniadau yn ôl i'r plant a'u cefnogi i ddatblygu argymhellion

Allbwn/deilliant

- Cyflwynodd y plant y canfyddiadau i gyngor y dref, wnaeth addo i weithredu ar eu hargymhellion i gyd
- Dyranwyd arian Adran 106 i'r gymuned o ganlyniad i'r ymchwil
- Mae pecyn cymorth wedi ei ddatblygu sydd wedi ei anelu at alluogi ysgolion eraill i hwyluso prosesau tebyg fel rhan o'r cwricwlwm newydd

10 Ymchwil gydag ysgolion yng Nghaerdydd

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Prosiect ymchwil bychan i chwarae plant a gododd gan i ddwy o fentrau'r cyngor gydnabod eu hamcanion cyffredin a gweithio ar y cyd

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Mae gan Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant Caerdydd ofyniad penodol ar gyfer tri ymgynghoriad gyda phlant fel targed ar gyfer blwyddyn gyntaf y prosiect
- Mae'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn cynnwys gofyniad ar gyfer cynnal ymchwil gyda phlant
- Mae'r fenter 'Rights Respecting Schools' yn ysgogi penaethiaid

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Gweithiwr Cymorth Datblygu Chwarae
- Uwch-weithiwr Ieuenctid, menter Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant

Proses

- E-bostiodd Swyddog Arweiniol Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant wahoddiadau i ysgolion a gweinyddu'r ymatebion
- Datblygwyd digwyddiad ymgynghori undydd chwareus a deniadol mewn ysgolion
- Cynlluniodd y Tîm Datblygu Chwarae ar gyfer sgwrs ymgynghorol gydag athrawon
- Cynhyrchwyd a dosbarthwyd adroddiad

Gyrwyr a symbylwyr

- Swyddog Arweiniol Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant sy'n deall chwarae ac all gydgyssylltu amcanion adrannol amrywiol
- Arian ac amser yn eu lle ar gyfer ymchwil gyda phlant trwy gynllun Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant, gellir ei ddynodi i'r Tîm Datblygu Chwarae
- Ysgolion a phenaethiaid yn gyfranogwyr parod: roedd nifer y rhain oedd am gyfranogi yn yr ymchwil yn fwy na chapasiti'r digwyddiad ymchwil

Allbwn/deilliant

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi dylunio arfau ymchwil chwareus ar gyfer plant ac athrawon
- Cynhyrchwyd droddiad ymchwil gan y Tîm Datblygu Chwarae, rhan allweddol o Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019
- Y Tîm Datblygu Chwarae wedi creu cysylltiadau newydd gydag ysgolion a phenaethiaid (yn y gorffennol roedd yn her i greu cysylltiad gydag ysgolion)
- Amcanion strategol Dinas sy'n Gyfeillgar at Blant ar gyfer ymgynghori gyda phlant a chwarae cymunedol wedi eu cyflawni ar gyfer blwyddyn gyntaf y prosiect

Camau nesaf

- Bwriedir ailadrodd y broses ar gyfer yr ADCh nesaf
- Hyder cynyddol y Tîm Datblygu Chwarae i ddylunio a rheoli ymchwil i'r dyfodol

11 Cynadleddau Bywyd yng ngogledd Cymru)

Maes

Polisi, eiriolaeth, cyfnewid gwybodaeth

Disgrifiad

Cyfres o gynadleddau thematig gyda'r nod craidd o eiriol dros chwarae ac ymgysylltu gyda mwy o bobl yn rhyngbroffesiynol wrth dalu mwy o sylw i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Dynododd Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol thema gyffredin bod angen ymgysylltu gydag ystod llawer ehangach o weithwyr proffesiynol ar draws feysydd polisi lluosog
- Defnyddiwyd ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i gynnal y cynadleddau

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Grŵp Swyddogion Chwarae Gogledd Cymru oedd â hanes o weithio gyda'i gilydd
- Yr un unigolion yn arwain ar Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol
- Chwarae Cymru'n cefnogi gweithio cydweithredol
- Siaradwyr arbenigol a diddorol ar chwarae a gwaith chwarae

Proses

- Dylunio, sicrhau cyhoeddusrwydd a hwyluso pump 'cynhadledd bywyd' â thema benodol, pob un yn targedu maes polisi penodol ac ystod eang o weithwyr proffesiynol: cartref, ysgol, parc, stryd ac iechyd

Heriau

- Colli swyddogion chwarae mewn rhai awdurdodau lleol
- Capasiti cyfyngedig swyddogion chwarae ar draws y rhanbarth

Allbwn/deiliant

- Cymerodd cannoedd o ymarferwyr, yn gweithio ar draws feysydd polisi amrywiol, ran weithredol mewn meddwl am chwarae
- Ffurfiwyd nifer o gyflwyniadau cychwynnol rhwng swyddogion chwarae a phobl sy'n gweithio mewn meysydd polisi eraill
- Dros amser, mae rhai o'r rhain wedi arwain at sefydlu 'sgîl-berthnasau gweithio' a 'sgîl-brosiectau'
- Ailadroddwyd model y gynhadledd mewn ardaloedd eraill ledled Cymru

12 Dylunio tai yn Vauban, Freiburg, Yr Almaen

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Anheddle tai a ddyluniwyd ar y cyd yn unol ag egwyddorion amgylcheddol a chyfeillgar at blant

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Safonau cynaliadwyedd y fwrdeistref ar gyfer datblygu'r anheddle
- Model cyfranogaeth dinasyddion

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Dau unigolyn llawn ysgogiad
- Grŵp o weithredwyr lleol â daliadau ecolegol a chymdeithasol
- Fforwm Vauban oedd yn cydlynu nifer o grwpiau cyd-drigo
- Swyddogion y cyngor

Proses

- Gweithiodd y grwpiau cyd-drigo gyda'r cyngor i ddylunio cymdogaethau'n unol â safonau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol

Ffactorau siawns

- Dylanwadodd astudiaeth allweddol i ddefnydd plant o ofod a dylunio meysydd chwarae, a gomisiynwyd ac a dderbyniwyd gan y fwrdeistref, ar ddylunio'r gofod cyhoeddus

Heriau

- Nifer o achosion o wrthdaro a chyfaddawdu'n ystod y broses, yn cynnwys lletya grŵp o sgwatwyr

Allbwn/deilliant

Dylunio cyfeillgar at blant trwy:

- Gysylltiadau trafndiaeth da, llwybrau seiclo a cherdded
- Meysydd parcio wedi eu lleoli draw oddi wrth y tai
- Cymdogaethau wedi eu dylunio mewn blociau siap-U, sy'n creu strydoedd chwarae / parthau cartrefi na ellir eu defnyddio ar gyfer traffig neu barcio
- Dyluniad dwysedd-uchel bwriadol yn golygu mwy o fannau gwyrdd
- Mae'r saith cymdogaeth wedi eu gwahanu a'u cysylltu gan bum parc, a ddyluniwyd gan drigolion, gyda nodweddion chwarae sy'n unol â'r adroddiad

Cyfeiriadau: Coates, G. J. (2013) The Sustainable Urban District of Vauban in Freiburg, Germany, *International Journal of Design & Nature and Ecodynamics*, 8(4), 265–286.

Blinkert, B. (2004) Quality of the city for children: chaos and order, *Children, Youth & Environments*, 14(2): 99-112.

13 Chwarae mewn datblygiadau tai

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Gweithio partneriaeth rhwng yr Arweinydd Digonolrwydd Chwarae a Swyddog Datblygu Amgylcheddol Cartrefi Conwy (landlord cymdeithasol)

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Pwysigrwydd hanesyddol, a chyfredol, canllawiau safonau tai a datganiadau gweinidogion ar wella amgylcheddol

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Cafodd Swyddog Datblygu Amgylcheddol Cartrefi Conwy, sydd â chefnidir mewn pensaernïaeth tirwedd, ei effeithio'n fawr gan weithgaredd atgofion chwarae fel rhan o gynhadledd 'Bywyd Parc'; mae ganddo ddiddordeb personol mewn gwneud tiriogaeth y cyhoedd yn fwy chwaraeadwy
- Arweinydd Digonolrwydd Chwarae gyda dealltwriaeth o chwarae plant, y gallu i gynnal ymchwil graddfa fechan i chwarae gyda phlant, a'r sgiliau arweinyddol a'r ysgogiad i gynnal cysylltiadau rhwng datblygiadau
- Mae gan Gartrefi Conwy ddiwylliant sefydliadol blaengar sy'n croesawu cyfrifoldeb cymdeithasol / cyfiawnder cymdeithasol, cymryd risg, dyfeisgarwch a chreadigedd

Proses

- Swyddog Datblygu Amgylcheddol yn cysylltu gyda'r Arweinydd Digonolrwydd Chwarae yn ystod camau cynllunio cynnar datblygiadau newydd
- Arweinydd Digonolrwydd Chwarae yn cynnal ymchwil ar raddfa fechan gyda'r plant yn archwilio eu defnydd cyfredol o'r gofod a'u hoff ddewisiadau chwarae
- Canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu datblygu yn friff dylunio
- Swyddog Datblygu Amgylcheddol yn dehongli'r briff, gan greu dyluniad ar gyfer manau chwarae penodedig ac ymyriadau / fforddiannau chwareus ledled tiriogaeth y cyhoedd

Heriau

- Gweithio gyda chynllunwyr a chwmnïau yswiriant i symud oddi wrth gyfyngiadau canfyddedig y safonau diogelwch Ewropeaidd

Allbwn/deilliant

- Defnyddir ymchwil gyda phlant i hysbysu dylunio tirwedd
- Mae cyfraniad plant tuag at gyd-ddoethineb yn helpu i herio syniadau cymunedau ar fannau chwarae (mae oedolion yn dueddol o fod eisiau meysydd chwarae traddodiadol, ond mae ymchwil gyda'r plant yn dangos fel arall)

Camau nesaf

- Addasiadau a newidiadau i swydd-ddisgrifiadau sy'n cwmpasu'r cyd-ddoethineb newydd

14 Strydoedd Chwarae Hackney yn Llundain

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Trigolion yn cau eu strydoedd i draffig trwodd am ychydig oriau'r wythnos neu'r mis, fel y gall plant chwarae allan yn fwy diogel ac fel y gall cymdogion ddod ynghyd

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Roedd Hackney Play Association am gefnogi strydoedd chwarae, ond nid oedd am eu gorfodi o'r top i lawr
- Galwad ffôn oddi wrth un o'r trigolion lleol oedd am sefydlu stryd chwarae oedd y sbardun cychwynnol
- Rhwydweithiau cryfion a chefnogaeth y cyngor

Proses

- Arweiniodd rhwydweithiau cryfion, partneriaethau da a lefel uchel o gefnogaeth oddi wrth Gyngor Hackney at flwyddyn beilot gychwynnol o gytuno ar gau strydoedd
- Yn dilyn hyn, cefnogodd ariannu oddi wrth fwrdd Get Hackney Healthy, Cyngor Hackney, ddatblygiad pellach strydoedd chwarae, trwy gyflogi cydlynedd strydoedd chwarae ers 2013 (pan gysylltodd y trigolyn cyntaf gyda Hackney Play Association)
- Bellach, mae gan Gyngor Hackney weithdrefn eglur ar gyfer cymeradwyo cau strydoedd a darparu arwyddion ffordd

Modelau

- Model strydoedd preswyl (tebyg i fodel Playing Out)
- Model ysgolion (mae Hackney Play Association yn cynnig canllaw penodol ar gyfer ysgolion)
- Model ystadau tai

Heriau

- Beirniadaeth bod y model strydoedd chwarae o fudd penodol i gymdogaethau proffesiynol dosbarth canol
- Cyflwynodd Hackney Play Association ddau ymateb i hyn:
 - Mae cael pobl broffesiynol dosbarth canol yn rhan o'r broses wedi sicrhau sgîl-ganlyniadau o ran rhwydweithiau dylanwadol gyda llunwyr polisïau a hefyd gefnogaeth eu harfer proffesiynol eu hunain ar gyfer chwarae plant y tu hwnt i strydoedd chwarae (er enghraifft pensaernïaeth a darpariaeth meithrinffeydd)
 - Comisiynwyd ymchwil pellach i chwarae stryd ar ystadau tai er mwyn deall y problemau'n well; mae ariannu'n golygu y gallant gynnig cymorth uniongyrchol, darparu adnoddau fel arwyddion ffordd a phecyn cychwynnol o adnoddau chwarae y gellir ychwanegu ato

Allbwn/deilliant

- Sefydlu dros 60 o strydoedd chwarae
- Adnoddau i gefnogi strydoedd chwarae ar draws y tri model

Cyfeiriadau: Cyfweiliad gyda Chyfarwyddwr Hackney Play Association a'r Cynghorydd Chris Kennedy.
Gill, T. (2015) Hackney Play Streets Evaluation Report. Llundain: Hackney Play Association a Chyngor Hackney.
www.hackneyplay.org/playstreets

15 Antwerp Speelweefselplan ('gwe-mannau-chwarae')

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Rhaglen dreiglol o ddatblygu rhwydweithiau o lwybrau seiclo a cherdded di-geir sy'n cysylltu mannau chwarae, ysgolion a chanolfannau ieuenctid mewn cymdogaethau, wedi eu cyfoethogi gyda 'chynigion chwarae' ar y ffordd

Symbylwyr a gyrwyr

- Brwdfrydedd y swyddog o'r cyngor oedd yn gyfrifol am fannau chwarae
- Amcan polisi'r ddinas o annog teuluoedd i symud i neu aros yn y ddinas
- Agwedd cymdogaethau tuag at gynllunio

Sut mae'n gweithio

- Un elfen allweddol yw casglu data ar raddfa eang trwy gronfa ddata agored anferth, hawdd i'w defnyddio y mae plant yn cael eu hannog yn weithredol i'w defnyddio a thîm dadansoddi data medrus (mae'r swyddog yn disgrifio hyn fel '*gamechanger*')
- Defnyddir y data i ddatblygu darlun o safleoedd allweddol a'r llwybrau rhyngddynt
- Mae cynigion yn cael eu datblygu a'u mireinio gyda chyfranogaeth bellach

Heriau

- Diffyg lle mewn dinas â phoblogaeth drwchus
- Gwrthwynebiad gwleidyddol i fesurau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio ceir
- Dibynnu ar un person sydd wedi ymrwymo i'r prosiect

Deilliant

- Mynediad i fannau chwarae wedi gwella

Cyfeiriadau:

www.antwerpen.be/nl/info/57e3c42e15fb6d2b200ec37f/antwerpse-speelweefselplannen

Gill, T. (2018) Antwerp's Play Space Web: smart, child-friendly neighbourhood planning in action, blog *Rethinking Childhood*

16 Ailfeddwl darpariaeth chwarae ar gyfer plant anabl yng Nghaerdydd

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Arweiniodd materion oedd yn ymwneud â chwarae plant anabl at agwedd newydd tuag at ddylunio parciau a meysydd chwarae trwy brosiect unigryw i ddatblygu gofod cymunedol naturiol, newydd

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Cynllun datblygu tirwedd
- Polisi a chynllunio mannau agored
- Dyletswydd ac Asesu Digonolrwydd Chwarae

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Prif Swyddog Tirwedd
- Cydlynnydd Chwarae Plant Anabl
- Rhieni gyda phryderon am chwarae cynhwysol mewn parciau ac offer meysydd chwarae
- Gweithgor Digonolrwydd Chwarae

Galluogwyr

- Rhieni llafar yn amlygu materion ynghylch offer cynhwysol sefydlog
- Diffyg adnoddau i gynnal a gosod offer chwarae i'r anabl o safon uchel
- Bwlch mewn darpariaeth gynhwysol mewn parciau a ddynodwyd trwy Asesiadau Digonolrwydd Chwarae
- Arweiniodd gwaith gyda rhieni ar ddylunio a chynnal ardaloedd chwarae dynodedig at sgysiau gyda'r Swyddog Tirwedd
- Parodrwydd y Gweithgor Digonolrwydd Chwarae i ddatrys y broblem gyda'r Cydlynnydd Chwarae Plant ag Anabledau a'r Prif Swyddog Tirwedd

Proses

- Darparodd y prosiect tirwedd a arianwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri gyfle newydd ar gyfer ailystyried darpariaeth ar gyfer cynhwysiant
- Datrysodd y Gweithgor Digonolrwydd Chwarae broblemau prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri (HLF) o ganlyniad i gyfyngiadau'n ymwneud â darpariaeth chwarae anabledd mewn parciau

Heriau

- Rheoli disgwyliadau'r cyhoedd ochr-yn-ochr â chyllidebau llai
- Parciau'n teimlo dan bwysau mawr oddi wrth rieni – fandaliaeth yn arwain at fwy o gwynion
- Swyddogion parciau ddim yn awyddus i sicrhau darpariaeth arbenigol benodol iawn, am geisio darparu rhywbeth sy'n gweithio i'r mwyafrif o bobl

Allbwn/deilliant

- Ymgynghoriad gyda rhieni
- Datblygwyd gofod awyr agored naturiol, gan gynnwys llwybrau hygyrch, llwybr darganfod synhwyraidd a chyfleusterau toiled i'r anabl, yn cynnwys peiriant codi
- Y prosiect wedi sbarduno'r Tîm Tirwedd a Pharciau i ailfeddwl ac ymgorffori mwy o amgylcheddau naturiol a synhwyraidd er mwyn darparu ar gyfer plant gyda phroblemau symud ac i ddarparu ar gyfer y mwyafrif o bobl, yn cynnwys brodyr a chwiorydd (ac nid dim ond darpariaeth arbenigol)

17 Polisi seilwaith gwyrdd a chynllunio yn Sir Fynwy

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Datblygu athroniaeth o amgylch creu lle a gwerth seilwaith gwyrdd amldeffnydd gyda'r potensial i gefnogi digonolrwydd chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Polisi Seilwaith Gwyrdd o fewn strategaeth cynllunio lleol wedi ei gefnogi gan ganllawiau cynllunio atodol
- Protocol cynllunio lleol ar gyfer datblygiadau mwy o faint sy'n gofyn am ymatebion trawsadrannol i geisiadau
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Polisi Adnoddau Naturiol (2017), Ffyniant i Bawb (2017) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Agenda teithio llesol

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Arweinydd pensaernïaeth tirwedd strategol ac unigolion rhagweithiol a gyflogir ar lefel polisi / cynllunio strategol o fewn y timau Seilwaith Gwyrdd a Chefn Gwlad
- Swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am ddigonolrwydd chwarae wedi ei leoli yn yr adran honno hefyd

Proses

- Datblygwyr a chynllunwyr yn dadansoddi asedau a chyfleoedd Seilwaith Gwyrdd a sut y gellir gwarchod, rheoli a chyfoethogi'r rhain
- Adrannau / swyddogion sydd â gwahanol gyfrifoldebau'n cyd-asesu a gwneud argymhellion ar geisiadau cynllunio

Heriau

- Nid yw safonau cyfarwyddol traddodiadol yn adlewyrchu defnydd plant o fannau ar gyfer chwarae
- Tensiynau rhwng agendâu cystadleuol o fewn rhai datblygiadau
- Addasu agweddau polisi a ddefnyddir mewn amgylcheddau trefol ar gyfer ardaloedd mwy gwledig
- Galluogi a diffinio agweddau tuag at gyfleoedd chwarae naturiol a chwarae gwyllt newydd

Allbwn/deilliant

- Safonau'n cael eu gweithredu mewn modd pragmataidd a chreadigol ar sail achos-wrth-achos
- Datblygiadau o safon well sy'n cyflawni nodau strategol a gweithredol ar draws yr awdurdod lleol
- Edrych y tu hwnt i gyrchfannau chwarae er mwyn ystyried chwarae fel un o swyddogaethau pob gofod cyhoeddus

Camau nesaf

- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd arfaethedig, wedi ei chefnogi gan y polisi cynllunio presennol, fydd yn datblygu'r agwedd arfaethedig tuag at ddatblygu chwarae ledled y sir

18 Rhentu coetir ar brydles yn Wrecsam

Maes

Yr amgylchedd adeiledig a naturiol

Disgrifiad

Cefnogi'r broses o rentu darn o goetir ar brydles er mwyn i blant chwarae

Tarddiad y syniad

- Yn dilyn ymchwil ar gyfer yr Aseiad Digonolrwydd Chwarae cyntaf, symudwyd rhai sesiynau gwaith chwarae a arianwyd gan y Loteri o ardaloedd trefol i ardaloedd mwy gwledig
- Tua diwedd ariannu'r Loteri, disodlwyd sesiynau wedi'u staffio gan gefnogaeth datblygu cymunedol gan weithiwr unigol
- Perchennog yr ystâd ddiwydiannol leol yn cynnig rhoi darn o goetir ar brydles (am rent rhad) i'r Cyngor Cymuned Lleol er mwyn iddynt allu ei agor i blant chwarae

Proses

- Helpodd Tîm Datblygu Chwarae'r cyngor i ddatblygu aseiad risg-budd ar gyfer y safle, wnaeth gynnwys derbyn cyngor oddi wrth adrannau Cynllunio ac Iechyd a Diogelwch yr awdurdod fu ar ymweliadau â'r safle
- Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau, ar wahân i godi ffens rhwng y tir a'r ystâd ddiwydiannol gyfagos
- Yna, cytunodd y Cyngor Cymuned ar brydles gyda'r tîrffeddiannwr a threfnu i'w hyswiriant gwmpasu defnydd y cyhoedd o'r tir
- Hwyluswyd rhywfaint o sesiynau chwarae wedi eu staffio i gychwyn, er mwyn annog pobl i'w ddefnyddio ond ers hynny mae'r tir wedi ei adael yn agored i'r plant chwarae arno

Sgîl effeithiau

- Mae staff datblygu chwarae'n defnyddio hwn fel esiampl pan fyddant yn siarad gyda rhanddeiliaid cymunedol am yr hyn allai fod yn bosibl

19 Model trosglwyddo gwaith chwarae newydd yng Nghaerdydd

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Ailstrwythuro gwasanaeth gwaith chwarae wnaeth wella atebol-rwydd yr awdurdod lleol i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Arweiniodd yr agenda cyni at gau canolfannau darpariaeth penodedig
- Criteria yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a'u canfyddiadau
- Defnyddio ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i gynnal peilot o brosiectau gwaith chwarae newydd

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Uwch-staff yn y Tîm Gwaith Chwarae'n siapio strwythur y gwasanaeth
- Gweithwyr chwarae profiadol gyda gwybodaeth drylwyr o'u cymunedau lleol
- Perthnasau gweithio agos rhwng gweithwyr chwarae ac ymarferwyr eraill a ddatblygwyd dros gyfnodau maith

Prosesau allweddol a ddefnyddiwyd

- Mabwysiadu agwedd fwy peripatetig trwy leihau dibyniaeth ar ganolfannau penodedig ar gyfer trosglwyddo darpariaeth gwaith chwarae
- Timau Datblygu Chwarae ardal leol yn cynnal archwiliadau lleol o fudiadau a darpariaeth gwaith chwarae
- Dynodi cyfleoedd i weithio'n wahanol trwy gysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- Defnyddio gwybodaeth Asesiadau Digonolrwydd Chwarae fel llyw ar gyfer datblygu'r gwasanaeth

Heriau

- Staff a theuluoedd yn gweld colli'r canolfannau penodedig a'r perthnasau oedd yn gysylltiedig â'r rhain
- Profi'n anos cynnwys plant anabl mewn darpariaeth gwaith chwarae ble nad oes canolfannau penodedig ar gael bellach
- Mae'n cymryd amser i brosiectau ddatblygu a chael eu gwreiddio mewn cymunedau

Allbwn/deilliant

- Mae gan y Tîm Gwaith Chwarae well dealltwriaeth o ddigonolrwydd chwarae
- Mae gwaith chwarae yn cael ei ystyried fwyfwy fel gwaith cymunedol
- Mae enw da a phroffil y Tîm Gwaith Chwarae'n gwella
- Mae'r gwasanaeth yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol tuag at chwarae a dynodi grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o ddarpariaeth gwaith chwarae

20 Gwaith chwarae fel gwaith cymunedol ym Mhlas Madog yn Wrecsam

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Cydnabod a mabwysiadu gwaith chwarae fel math o ddatblygiad cymunedol chwarae-ganolog

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Rhaglenni Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi
- Rhaglen Buddsoddi Lleol (wedi ei hariannu gan y Loteri Fawr)
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a chanfyddiadau Asesiadau Digonolrwydd Chwarae'r awdurdod lleol

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Darparwr gwaith chwarae trydydd sector
- Gweithwyr chwarae hynod brofiadol ac ymroddedig gyda gwybodaeth gyfoethog am eu hardal
- Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cynnwys gradd mewn gwaith chwarae yn y brifysgol leol
- Tîm Datblygu Chwarae'r awdurdod lleol yn cefnogi darparwr y gwasanaeth
- Ymchwil lleol yn archwilio rôl gwaith chwarae yng nghyd-destun digonolrwydd chwarae
- Hanes o ddarpariaeth gwaith chwarae yn yr ardal

Proses

- Cychwynnodd y ddarpariaeth gwaith chwarae fel cynlluniau chwarae cymunedol tymhorol
- Datblygwyd darpariaeth blwyddyn gron i gynnwys maes chwarae antur, cynlluniau chwarae cymunedol a chwarae stryd
- Chwaraeodd y gweithwyr chwarae rhan gynyddol mewn mathau eraill o waith cymunedol (er enghraifft digwyddiadau, cefnogaeth i deuluoedd, rhaglenni llwgu yn ystod y gwyliau)
- Penderfynodd y gymuned ariannu tîm i ddarparu gwaith chwarae yn ogystal â chefnogaeth datblygu cymunedol arall

Heriau

- Cynaliadwyedd ariannu a diffyg ariannu penodedig ar gyfer gwaith chwarae
- Diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl y proffesiwn gwaith chwarae

Allbwn/deiliant

- Plant a rhieni'n adrodd eu bod yn fodlon iawn gyda chyfleoedd i chwarae
- Y gymuned yn gosod gwerth mawr ar waith y tîm
- Y tîm yn chwarae rhan weithredol mewn nifer o agweddau o fywyd cymunedol

21 PLAY KX yn Llundain

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Sesiynau gwaith chwarae'n defnyddio rhannau rhydd yn natblygiad adfywio 67 acer Kings Cross, Llundain

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Parneriaeth Kings Cross Centre Limited
- Assemble (cydweithfa sy'n gweithio ar draws pensaernïaeth, dylunio a chelf)
- Tîm o weithwyr chwarae sydd hefyd yn artistiaid, cerddorion, dawnswyr / coreograffwyr, perfformwyr syrcas

Datblygiad y prosiect

- Roedd y cwmni rheoli am adeiladu maes chwarae i blant
- Cysylltwyd gydag Assemble, cydweithfa enillodd wobr Turner gyda phrofiad o chwarae plant
- Ymatebodd Assemble gan ddweud y dylid gadael gofod agored yn agored yn hytrach na'i lenwi gydag offer, gan awgrymu y dylid gwario'r arian yn hytrach ar gyflogi gweithwyr chwarae i gynnal sesiynau dyddiol yn defnyddio rhannau rhydd – cytunodd y cwmni rheoli

Stratagaethau

- Rhedeg y sesiynau gan ddefnyddio ethos gwaith chwarae
- Mae gofyn i rieni aros – rhoddir croeso iddynt a'u gwahodd i eistedd a gwylïo'u plant yn chwarae gyda'r rhannau rhydd
- Mae popeth yn cael ei gofnodi – yn fuan iawn roedd gan y cyfrif Instagram 1500 o ddilynwyr
- Caniatodd symud dan do yn y gaeaf i bartneriaeth gael ei chreu gydag Ysgol Gelf Ganolog St Martin's: arsylwodd y myfyrwyr y plant yn chwarae a gofyn am help ar brosiectau seiliedig ar chwarae – rhoddwyd caniatâd i dwrio mewn sgips!
- Tawelwyd pryderon y cwmni rheoli bod y sesiynau'n 'aflêr' trwy greu terfyn gyda charped coch (yn hytrach na'r rheilins a ddarparwyd)

Heriau

- Er bod y sesiynau'n boblogaidd iawn, a bod y rhieni'n oedi (a gwario mwy o arian yn y siopau uchel ael a'r caffis dethol) – roedd y chwarae'n cael ei ystyried yn aflêr a dechreuwyd gosod cyfyngiadau
- Nid yw'n glir pa mor hir y bydd yr ariannu'n para

Allbwn/deilliant

- Mae'r sesiynau'n llwyddiant gyda grŵp amrywiol o blant a rhieni
- Mae rhannau rhydd, chwarae a drefnir gan y plant a gwaith chwarae'n cael eu harddangos mewn datblygiad moethus

Cyfeiriad: Nodiadau o gyflwyniad gan y weithwraig chwarae, Penny Wilson, yng nghynhadledd Art of Playwork yn Nhŷ Pawb, Wrecsam, Hydref 2019

22 Gwobrau Cyfoethogi Chwarae yng Nghonwy

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Prosiect sy'n gweithio gyda lleoliadau ysgol a gofal plant blynyddoedd cynnar i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae plant trwy gyflwyno chwarae rhannau rhydd a hyfforddiant gwaith chwarae

Polisi - symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae: dynododd canfyddiadau o'r Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae angen i wella ansawdd cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i chwarae mewn lleoliadau ysgol a gofal plant y blynyddoedd cynnar
- Datblygwyd y rhaglen o'r prosiect Rhodwyr Chwarae – Dewis Chwarae, a arianwyd gan y Loteri FAWR
- Ariannodd Adran Addysg y Cyngor ddatblygiad fersiwn gofal plant blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant
- Ariannwyd trosglwyddo'r Gwobrau Cyfoethogi Chwarae gan Teuluoedd yn Gyntaf

Pobl - symbylwyr a gyrwyr

- Arweinydd Digonolrwydd Chwarae gyda dealltwriaeth a gallu i drosglwyddo'r hyfforddiant yn ogystal â'r cynllun gwobrau
- Cefnogaeth oddi wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Digonolrwydd Chwarae trawsadrannol
- Parodrwyd penaethiaid ysgolion a lleoliadau gofal plant i fabwysiadu'r cynllun a newid eu harferion cyfredol
- Defnyddiwyd y mabwysiadwyr cynnar fel eiriolwyr ar ran y cynllun gwobrau, gan sicrhau llif cyson o leoliadau newydd, parod

Proses

- Lleoliadau'n cymryd rhan mewn cyfle datblygiad proffesiynol er mwyn gwerthfawrogi'n well safle chwarae yng nghynnig y lleoliad
- Plant yn datblygu polisi chwarae a chynnal gweithdai ar hawliau plant
- Cefnogir rheolwyr a staff i ddatblygu arferion rheoli risg
- Cefnogir newidiadau mewn arfer trwy drosglwyddo darpariaeth chwarae rhannau rhydd, modelu arfer, hyfforddiant a chefnogaeth cymheiriaid

Heriau

- Gweithio mewn modd digon amserol er mwyn i leoliadau allu cymryd rhan trwy eu cynlluniau a'u hamserlenni cyfredol
- Ailymweld â sefydliadau i ddarparu cefnogaeth barhaus mewn ymateb i drosiant staff a materion eraill

Allbwn/deilliant

- Gwella ansawdd amserau chwarae
- Gwelliannau yn ymddygiad y plant neu ganfyddiadau o'u hymddygiad
- Newidiadau ehangach i arfer yn dilyn myfyrio ar werth chwarae a gallu plant i ddefnyddio cyfleoedd i chwarae
- Adborth positif iawn oddi wrth arolygwyr mewn lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yn ogystal ag ysgolion

Camau nesaf

- Sefydlu proses werthuso gadarn i berswadio mwy o leoliadau i ymuno yn y cynllun
- Datblygu agwedd ranbarthol tuag at weithio gydag ysgolion yn unol â GwE (rhaglen gwella ysgolion Gogledd Cymru)

23 Prosiect Buarthau Ysgolion Oasis ym Mharis

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Mae'r prosiect hwn yn anelu i 'lasu' buarthau chwarae ysgolion Paris trwy amnewid arwynebau asffalt gyda phlannu gwyrdd ac agor y gofodau yma ar gyfer defnydd y cyhoedd y tu allan i oriau ysgol

Symbylwyr a gyrwyr

- Rhan o strategaeth cydnerthedd Paris
- Gyrwyr amgylcheddol yn hytrach na rhai chwarae: yn 2003 lladdwyd 700 o bobl ym Mharis gan dywydd poeth difrifol ac mae trwch yr adeiladau yn y ddinas yn achosi 'Ynys Wres Trefol' – mae'r newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r perygl o lifogydd ar yr afon Seine
- Felly, mae glasu buarthau ysgolion yn cynnig ateb rhad all helpu i oeri'r aer a chario dŵr ffo, gyda'r budd ychwanegol o ddarparu gofod chwarae a chymunedol ychwanegol y tu allan i oriau ysgol

Nodau'r prosiect

Mae'r prosiect yn dal i fod yn y cyfnod cynllunio a'i nodau yw:

- Addasu buarthau ysgolion trwy amnewid asffalt am ddeunydd mân-dyllog, cyfoethogi ail-dyfiant, moderneiddio dulliau rheoli dŵr
- Atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol trwy gyd-ddylunio buarthau'r ysgolion gyda phob cymuned leol, gyda'r bwriad o'u hagor at ddefnydd y gymuned
- Gwarchod iechyd y mwyaf bregus trwy addasu'r seilwaith y mae plant yn ei ddefnyddio yn ogystal â thrwy agor y gofodau hyn ar gyfer pobl hŷn

Gwersi

- Mae'n arddangos synergeddau posibl rhwng materion amgylcheddol, seilwaith gwyrdd a chwarae plant

24 Datblygu clwb ieuenctid cynhwysol ym Merthyr Tudful

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Clwb ieuenctid gydag ethos cynhwysol wnaeth godi'n sgîl staff yn ennill profiad uniongyrchol o weithio gyda phlant sydd angen lefelau uwch o gefnogaeth

Pobl

- Plentyn oedd angen cefnogaeth ychwanegol
- Gweithwyr ieuenctid hir sefydlog (oedd hefyd wedi derbyn hyfforddiant gwaith chwarae)
- Cysondeb a chapasiti digonol o fewn y tîm o staff
- Gwaith tîm ac agwedd 'mynd amdani'

Adnoddau/galluogwyr

- Mynychodd y staff Gynllun Cynhwysol AmberGreen, rhaglen ddatblygu sefydliadol
- Cyfleuster clwb ieuenctid mawr penodedig
- Mynediad i drafnidiaeth

Proses

- Roedd plentyn oedd angen cymorth ychwanegol eisiau mynychu ac roedd y tîm staff yn barod i roi tro ar bethau
- Llwyddodd y staff a'r rhiant i ddod trwyddi rywsut a galluogwyd y plentyn hwnnw i fynychu'r lleoliad
- Roedd y staff yn teimlo'n fwy hyderus ac, yn bwysig iawn, roedd y rhiant hefyd
- Soniodd y rhiant wrth rieni eraill ac, o ganlyniad, enillodd y lleoliad enw da am gefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol
- Dechreuodd y lleoliad 'fynd allan o'i ffordd' i groesawu'r plant, gan eu cludo o'u hysgolion a'u cartrefi i'r lleoliad
- Yn y pen draw tyfodd i fod yn ffordd y mae'r lleoliad hwn yn gweithio, a 'does neb yn cofio'n iawn sut y digwyddodd

Ffactorau siawns

- Mae'r staff yn disgrifio eu hagwedd flaengar tuag at gynhwysiant fel 'damwain ffodus'
- Datblygwyd arfer cynhwysol trwy ewyllys, penderfyniad a lwc dda

Heriau

- Nid yw mesurau perfformiad rhagnodedig yn cyfrif am wir werth y gwasanaeth

Allbwn/deiliant

- Canran uchel o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad â rhyw fath o nam
- Plant sydd angen lefelau uwch o gymorth yn dod â staff ychwanegol gyda nhw
- Yr ethos cynhwysol wedi ei wreiddio cystal fel bod pobl ifanc yn aml yn cefnogi ei gilydd heb ymyrraeth oedolion
- Cynnydd mewn hyder rhieni'n arwain at lefel uchel o ymholiadau oddi wrth deuluoedd eraill

25 Prosiect Amgueddfa Mwy Chwareus yn Amgueddfa Manceinion

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Prosiect i helpu i ddatblygu staff yr amgueddfa i gymryd atebol-rwydd i alluogi plant i ganfod amser a lle i chwarae

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Egwyddorion Happy Museum sy'n ymwneud â lles a chynladwyedd
- Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac ymchwil academiaidd i hawl plant i chwarae
- Arbrofi diwylliannol yr Happy Museum wedi ei ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn
- Strategaeth mynediad ac ymgysylltu, Amgueddfa Manceinion

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Pennaeth Ymgysylltu Amgueddfa Manceinion, wedi ymroi i ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae dan arweiniad plant yn yr amgueddfa
- Hyfforddwy'r chwarae a gwaith chwarae oedd â diddordeb datblygu a herio diwylliant amgueddfeydd ac annog mannau sy'n gyfeillgar at blant ac at chwarae
- Cefnogodd Cyfarwyddwr Happy Museum syniadau arbrofol o sectorau eraill

Proses

- Hyfforddiant staff, mentora, ymyriadau arbrofol yn yr orielau, cyd-greu canllaw ymarfer a datblygu llysgenhadon chwarae er mwyn gwreiddio arfer chwareus

Galluogwyr

- Perthnasau oedd yn bodoli eisoes rhwng hyfforddwy'r a Swyddog yr Amgueddfa o brosiectau arddangos chwareus flaenorol (yn cynnwys hyfforddiant chwarae) yng Ngwasanaeth Amgueddfa Salford
- Dau gais ariannu llwyddiannus a ddyfarnwyd gan Happy Museum
- Cynorthwywyr ymwelwyr wedi ymroi'n llwyr i'r hyfforddiant a gwreiddio ffyrdd newydd o weithio
- Rheolwyr yn cefnogi parhau â'r agwedd ac eiriol drosti'n ehangach
- Mae Happy Museum yn darparu arweiniad parhaus, a chefnogaeth ymarferol ac ariannol

Heriau

- Mae newidiadau staff yn arafu gwreiddio'r llysgenhadon chwarae
- Weithiau mae gofynion sy'n cystadlu am amser staff yr amgueddfa'n llesteirio datblygiadau
- Mae angen cyfathrebu'r agwedd chwareus yn barhaus i staff newydd ac ymwelwyr

Allbwn/deilliant

- Llysgenhadon chwarae wedi eu sefydlu gyda diwrnodau chwareus rheolaidd a hyfforddiant parhaus i wirfoddolwyr
- Y prosiect wedi ei gofnodi a'i rannu mewn cynadleddau amgueddfeydd
- Hyfforddiant wedi ei ddatblygu ar gyfer lleoliadau diwylliannol eraill yn cynnwys safleoedd treftadaeth a swê, gyda chymorth y llysgenhadon chwarae
- 'The study' – gofod archwiliol chwareus ar gyfer oedolion a ddatblygwyd mewn ymateb i feddwl yn ddyfnach am yr hyn yr oedd chwarae'n ei olygu i'r amgueddfa

Camau nesaf

- Sefydlu mudiad cymorth i esblygu amgueddfeydd chwareus, yn cynnwys hyfforddiant

26 Arddangosfa Gwaith-Chwarae, Tŷ Pawb yn Wrecsam

Maes

Gwasanaethau plant a chymunedol

Disgrifiad

Arddangosfa'n dathlu gwaith chwarae, y gofod creadigol y maent yn anelu i'w hwyluso, ac ymdrechion artistig artistiaid. Fe wnaeth yr arddangosfa gynnwys trawsnewid y brif oriel yn faes chwarae antur wedi ei staffio

Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae
- Ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau
- Ariannu gan Gyngor y Celfyddydau a Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan

Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Perthynas hirsefydlog Cyfarwyddwr Creadigol Tŷ Pawb gyda'r Arweinydd Digonolrwydd Chwarae
- Hanes maith o waith chwarae yn Wrecsam
- Tîm Datblygu Chwarae'r awdurdod lleol
- Gweithwyr chwarae o feysydd chwarae antur lleol
- Artistiaid a Thechnegwyr yr Oriol
- Cododd y syniad gwreiddiol o raglen datblygiad proffesiynol a drosglwyddwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Swydd Gaerloyw

Proses

- Defnyddiwyd ariannu Grant Cyfle i Chwarae Cymru Gyfan i recriwtio ymgynghorwyr i helpu i guradu yr arddangosfa
- Ymgynghoriad dylunio a throsglwyddo gyda phob partner
- Datblygu cynllun gweithredol ac asesiadau risg-budd a chanllawiau
- Cyrchu staff a deunyddiau ar gyfer yr arddangosfa o feysydd chwarae antur lleol
- Hwrwyddo a throsglwyddo dros gyfnod o ddeg wythnos
- Cynhadledd i gau'r arddangosfa yn dwyn ynghyd artistiaid a gweithwyr chwarae

Heriau

- Diffyg capasiti i adeiladu a staffio'r arddangosfa mor effeithiol â'r gobaiith
- Fe wnaeth ymrwymadau gweithredol blaenorol atal gweithwyr chwarae rhag cyfrannu gymaint ag y byddent wedi dymuno

Allbwn/deilliant

- Ymgysylltu gyda dros 10,000 o ymwelwyr
- Budd i enw da pawb fu'n rhan o'r prosiect
- Cyfle unigryw i eiriol dros chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd chwarae
- Cyfnewid gwybodaeth rhwng disgyblaethau a chynhyrchu cyd-ddoethineb
- Sbarduno potensial i gyfleoedd eraill godi



Awduron: Wendy Russell, Mike Barclay, Ben Tawil a Charlotte Derry

Gorffennaf 2020

© Yr awduron a Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926